# Diweddariadau'r wythnos o CGGC

### 14 AWST 2019

Helo, a chroeso i gylchlythyr yr wythnos hon.

Rydyn ni newydd ddod yn nôl o'r Eisteddfod Genedlaethol, lle aeth ein pwrpas a'n gwedd newydd i lawr yn dda gyda'r ymwelwyr hyfryd i'r stondin - diolch gymaint am eich holl sylwadau caredig, rydyn ni'n hapus iawn ag ef hefyd!

Yn yr Eisteddfod cawsom lansiad cyffrous arall - Bwrsariaeth Arweinyddiaeth Walter Dickie. Mae'r fwrsariaeth yn rhoi £2,500 yn flynyddol i arweinydd mudiad gwirfoddol sy'n edrych i ddatblygu ei sgiliau entrepreneuraidd. Mae'r fwrsariaeth bellach yn derbyn ceisiadau felly cysylltwch â thîm Buddsoddi Cymdeithasol Cymru i ddarganfod mwy.

Yn olaf, wythnos nesaf rydym yn dechrau ar ein proses Etholiad Bwrdd ar gyfer 2019. Bydd y cam enwebu yn cychwyn ar 19 Awst. Cadwch lygaid mas am fwy o wybodaeth...

Diolch am ddarllen, welwn i chi eto'r wythnos nesaf.

# Ail agor bwrsari ar gyfer arweinwyr y sector gwirfoddol

Mae Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie bellach ar agor i geisiadau o arweinwyr sector gwirfoddol.

Darllen mwy

# Cyllid diweddaraf

### Comic Relief - ar draws gororau

Mae cyllid ar gael i fudiadau gefnogi ffoaduriaid sy'n gwneud eu ffordd ar hyd y prif lwybrau ffoaduriaid, o'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA) i Ewrop, yn cynnwys y DU.

Darllen mwy

### Rhaglen Benthyca Weston

Mae £5,000-£25,000 o gyllid ar gael ar gyfer amgueddfeydd a galeriau i fenthyg gweithiau o gasgliadau cenedlaethol, gan annog rhannu gweithiau yn ehangach ar draws y DU.

Darllen mwy

## Newyddion sector gwirfoddol

### Sesiynau gwybodaeth y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol

Yn dilyn y cyhoeddiad i estyn y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol i gael £11.5m yn fwy o gyllid, bydd CGGC yn cynnal cyfres o sesiynau gwybodaeth yn ystod Medi i helpu a chefnogi mudiadau a all fod â diddordeb i ymgeisio.

Darllen mwy

## Llythyr Brexit Heb Gytundeb

Mae Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit wedi cydlynu llythyr agored ar y cyd i'r Prif Weinidog ynglŷn â gadael heb gytundeb

Darllen mwy

## Cyngor ac arweiniad

### Rhestr wirio gwrthdaro buddianau

Ydych chi'n gwybod sut i reoli gwrthdaro buddiannau?

Darllen mwy

### Helpwch i wella Canllaw Diogelu Elusennau

Mae'r Comisiwn Elusennau eisiau eich barn am ei ganllaw diogelu

Darllen mwy

# Hyfforddiant a digwyddiadau

### Rheoli prosiectau

Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar reoli prosiectau, wedi'i hardystio gan ILM. 27 a 28 Tachwedd 2019, Caerdydd

Darllen mwy

# Polisi a prosiectau`

### Llywodraeth yn clywed ynglyn a 'gymhlethdod' ffrydiau ariannu

Mae Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant y trydydd sector wedi cyfarfod â Julie Morgan, Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Darllen mwy